Atodiad A

Adroddiad:

Grŵp Ffocws Defnyddwyr y Gwasanaeth

Strategaeth Prydau Bwyd Cymunedol

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori ym mis Mawrth 2005 gyda Grŵp Ffocws yn cynnwys defnyddwyr y gwasanaeth sy'n mynychu Canolfan Deuluol Caia.

Roedd y Grŵp Ffocws yn cynnwys saith o ddefnyddwyr y gwasanaeth. Rhoddwyd taflen wybodaeth i'r cyfranogwyr yn esbonio pwrpas y cyfarfod cyn cynnal ymarfer meincnodi syml.

Roedd pob un o'r defnyddwyr yn derbyn gwasanaethau cymdeithasol eraill yn ogystal â mynychu'r ganolfan ddydd. Mae'r amrywiaeth o wasanaethau a dderbynnir yn cynnwys pryd bwyd poeth a ddarperir gan y gweithwyr gofal cartref, prydau bwyd wedi'u rhewi, mynychu clybiau cinio, mynychu canolfan ddydd ychwanegol, a gofal preswyl.

Roedd pob un o gyfranogwyr y Grŵp Ffocws yn fodlon iawn â'r prydau bwyd yr oeddent yn eu cael gan amrywiaeth o ffynonellau. Fodd bynnag, mynegodd y grŵp yn gryf bod yn well ganddynt fwyta pryd bwyd yng nghwmni eraill yn hytrach nag ar eu pen eu hunain.

Roedd yn well ganddynt hefyd yr amrywiaeth a'r dewis oedd ar gael iddynt wrth gael pryd bwyd gydag eraill mewn canolfan ddydd, clwb cinio neu mewn lleoliad preswyl.

Oherwydd graddfa fach y grŵp ffocws, dim ond ciplun a gafwyd o ddymuniadau defnyddwyr y gwasanaeth o ran prydau bwyd, er hynny roedd y canlyniadau yn cefnogi'r safbwynt bod rhannu rhai prydau bwyd ag eraill yn opsiwn a werthfawrogir.

Nigel Williams, Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol
Pam Blackwell, Rheolwr Gofal Cartref